# Gosod a datgysylltu sgaffaldiau to dros dro

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi, gosod a datgysylltu sgaffaldiau to dros dro, sgaffaldiau sy'n ymgorffori tyrau, sgaffaldiau annibynnol a thrawstiau, dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, a dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar.

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio ym meysydd galwedigaethol Sgaffaldiau, Llwyfannau a Rigiau, a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

P1 dehongli'r wybodaeth a roddir am y gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei pherthnasedd

P2 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a phenodol a chanllawiau swyddogol i wneud eich gwaith a chynnal arferion gwaith diogel ac iach

P3 dewis faint o adnoddau sydd eu hangen ac ansawdd gofynnol yr adnoddau hynny ar gyfer y dulliau gweithio

P4 cydymffurfio â gweithdrefnau’r sefydliad i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o’i gwmpas

P5 cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir yn y contract i wneud y gwaith yn effeithlon yn unol â’r gofynion

P6 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a neilltuwyd yn unol â'r rhaglen waith

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*